



Hawliau Dynol

**Beth mae pobl yn ei wybod am
eu hawliau**

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: **Dealltwriaeth y cyhoedd o hawliau dynol a rôl camwybodaeth: Adolygiad Cyflym o'r Dystiolaeth.**



Efallai y byddwch eisiau help i'w ddarllen. Gallwch ofyn i rywun rydych chi'n eu hadnabod eich helpu.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae'n golygu **Llywodraeth Cymru**. I gael gwybod mwy gallwch:

Edrych ar wefan yr Uned Tystiolaeth:

llyw.cymru/strategaeth-unedau-tystiolaeth-cydraddoldeb-hil-ac-anabledd

Neu anfonwch e-bost atom yn:

YrUnedTystiolaethCydraddoldeb@llyw.cymru



Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

[Hawdd ei Ddeall Cymru](#) luniodd y ddogfen hon. [Cliciwch yma i ddweud wrthym beth ydych chi'n ei feddl.](#)

Deall hawliau dynol.....4

Beth wnaethon ni ei ddarganfod7

Nid yw gwybod am hawliau dynol yn ddigon7

Nid yw mwy o wybodaeth bob amser yn helpu.....9

Mae ymddiriedaeth yn bwysig10

Gall gwybodaeth sydd ddim yn wir achosi problemau11

Iaith a diwylliant12

Mae bywydau pobl yn effeithio ar eu hawliau13

Beth ddylai ddigwydd nesaf 15

Mae angen mwy o ymchwil.....18

Deall hawliau dynol



Fe wnaethon ni edrych ar ba mor dda mae pobl yn deall eu **hawliau dynol**.



Mae **hawliau dynol** yn hawliau a rhyddid sylfaenol y dylai pawb eu cael. Enghreifftiau o **hawliau dynol** yw:



- Cael eich trin yn deg.



- Cael addysg.



- Cael gwneud penderfyniadau am eich bywyd eich hun.



- Cael eich meddyliau a'ch credoau eich hun.



- Cael dweud beth rydych chi'n ei feddwl.



Fe wnaethon ni edrych ar dros 100 o wahanol ddarnau o wybodaeth ac ymchwil.

Roedden ni eisiau deall:



- Beth mae pobl yn ei wybod am eu hawliau dynol.



- Sut y gall gwybodaeth sydd ddim yn wir effeithio ar hyn.



- Beth all helpu pobl i wybod mwy am eu hawliau.

Beth wnaethon ni ei ddarganfod

Nid yw gwybod am hawliau dynol yn ddigon



Efallai y bydd pobl yn gwybod bod hawliau dynol yn bodoli. Ond efallai na fyddant yn gallu defnyddio eu hawliau.

Mae ar bobl angen:



- Gwybodaeth glir.



- Cymorth.



- Cyfleoedd i ddefnyddio eu hawliau.



Mae profiad bywyd yr un mor bwysig â gwybodaeth ac addysg.



Mae gwybod am hawliau dynol yn bwysig. Ond nid yw'n ddigon ar ei ben ei hun.

Nid yw mwy o wybodaeth bob amser yn helpu



Gall addysg a gwybodaeth helpu pobl i ddysgu am hawliau dynol.

Ond gall pobl ddysgu mwy pan fyddant yn:



- Rhannu eu barn.



- Dysgu o'u profiadau eu hunain.



- Gweld sut mae hawliau'n gwneud gwahaniaeth yn eu bywydau bob dydd.

Mae ymddiriedaeth yn bwysig



Mae angen i bobl allu ymddiried yn y sefydliadau sy'n rhoi gwasanaethau iddynt.



Gall sefydliadau helpu pobl i gael gwybod mwy am eu hawliau. Er enghraifft:

- Ysgolion.
- Gwasanaethau iechyd.
- Gwasanaethau cyhoeddus. Gwasanaethau cyhoeddus yw gwasanaethau sy'n cael eu talu amdanynt gan y Llywodraeth. Er enghraifft, cynghorau lleol, y Gwasanaeth Iechyd a'r Gwasanaeth Tân ac Achub.
- Grwpiau cymunedol.



Mae pobl yn fwy tebygol o ddefnyddio eu hawliau os yw'r sefydliadau hyn yn eu parchu'r hawliau hynny.

Gall gwybodaeth sydd ddim yn wir achosi problemau



Camwybodaeth yw gwybodaeth sydd yn anghywir neu ddim yn wir. Mae pobl yn rhannu camwybodaeth heb wybod os yw'n wir ai peidio.



Mae **twyllwybodaeth** hefyd yn wybodaeth sydd yn anghywir neu ddim yn wir. Mae'n cael ei rhannu ar bwrpas i gamarwain pobl eraill.



Gall y ddau:

- Ddrysu pobl.
- Gwneud i bobl deimlo'n ofnus.
- Rhoi syniadau annheg am bobl.
- Gwneud i bobl fod â llai o ffydd mewn sefydliadau.
- Ei gwneud yn fwy anodd i bobl ddysgu am eu hawliau.

Iaith a diwylliant



Wrth roi gwybodaeth am hawliau dynol mae'n bwysig defnyddio iaith glir a syml.



Gall helpu i siarad am hawliau dynol gan ddefnyddio geiriau fel:

- Urddas. Mae urddas yn golygu trin pobl gyda pharch a charedigrwydd.
- Tegwch.
- Parch.



Efallai y bydd pobl yn gwybod mwy am eu hawliau dynol pan fydd gwybodaeth ar gael yn eu hiaith gyntaf.



Gall defnyddio gormod o eiriau cyfreithiol wneud gwybodaeth yn anoddach i'w deall.

Mae bywydau pobl yn effeithio ar eu hawliau




Gall bywydau pobl effeithio ar eu gallu i ddefnyddio eu hawliau.

Er enghraifft:



- Byw mewn **tlodi** – dim digon o arian ar gyfer y pethau sylfaenol sydd eu hangen arnoch.



- Tai gwael.



- Iechyd gwael.



- **Gwahaniaethu** - pan fyddwch yn cael eich trin yn wael neu'n annheg oherwydd pwy ydych chi.



- Anhawster cael y gwasanaethau sydd eu hangen arnoch.



Gall y problemau hyn wneud i bobl deimlo bod defnyddio eu hawliau yn rhy anodd neu'n rhy beryglus.

Beth ddylai ddigwydd nesaf



Mae gwneud pobl yn ymwybodol o hawliau dynol yn bwysig.

Ond mae hefyd yn bwysig i bobl gael:



- Gwybodaeth glir a dibynadwy.



- Ffydd mewn sefydliadau.



- Cyfleoedd i gymryd rhan.



- Cefnogaeth i ddefnyddio eu hawliau.



- Gwasanaethau sy'n parchu hawliau pobl.



Dylai gwybodaeth fod mewn iaith glir.



Mae gwybodaeth am hawliau dynol yn fwy defnyddiol pan mae'n gysylltiedig â bywyd bob dydd.



Dylai gwybodaeth fod yn yr iaith sydd orau gan bobl.



Dylai pobl allu dysgu am eu hawliau yn Gymraeg a Saesneg.

Mae angen mwy o ymchwil



Nid oes digon o ymchwil am yr hyn sy'n gweithio yn y tymor hir.

Mae angen mwy o ymchwil am:



- Beth sy'n helpu pobl i ddysgu am hawliau dynol.



- A yw'r wybodaeth hon yn para dros amser.



- Profiadau pobl yng Nghymru a'r DU.



Mae llawer o'r ymchwil y gwnaethon ni edrych arni yn dod o wledydd eraill.



Gall mwy o ymchwil ein helpu ni i gael gwybod sut i helpu pobl i ddeall eu hawliau yn well.